# Deddf Trawsblannu Dynol (Cymru) 2013

**2013 dccc 5**

*Gweithgareddau trawsblannu cyfreithlon*

## 3 Awdurdodi gweithgareddau trawsblannu

(1) Mae gweithgareddau trawsblannu yn gyfreithlon os cânt eu gwneud yng Nghymru—

(a) â chydsyniad datganedig pan fo'n ofynnol ei gael (gweler adrannau 4 i 7), neu

(b) fel arall lle yr ystyrir bod cydsyniad wedi ei roi (gweler adrannau 4 ac 9).

(2) Mae'r canlynol yn weithgareddau trawsblannu at ddiben y Ddeddf hon—

(a) storio corff person ymadawedig i'w ddefnyddio at ddiben trawsblannu;

(b) tynnu o gorff person ymadawedig, i'w ddefnyddio at y diben hwnnw, unrhyw ddeunydd perthnasol y mae'r corff wedi ei gyfansoddi ohono neu y mae'n ei gynnwys;

(c) storio i'w ddefnyddio at y diben hwnnw unrhyw ddeunydd perthnasol sydd wedi dod o gorff dynol;

(d) defnyddio at y diben hwnnw unrhyw ddeunydd perthnasol sydd wedi dod o gorff dynol.

(3) Mae gweithgaredd trawsblannu o'r math a grybwyllir yn is-adran (2)(c) neu (d) yn gyfreithlon (heb yr angen am gydsyniad) pan y'i gwneir yng Nghymru—

(a) os yw'r deunydd perthnasol wedi ei fewnforio i Gymru o'r tu allan i Gymru, a

(b) os tynnwyd y deunydd o gorff person y tu allan i Gymru.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 3 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 21(1)**

**I2** A. 3 mewn grym ar 1.12.2015 gan O.S. 2015/1679, **ergl. 3(a)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Trawsblannu Dynol (Cymru) 2013, Croes Bennawd: Gweithgareddau trawsblannu cyfreithlon.